# Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

**2014 dccc 2**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas â dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol. [27 Ionawr 2014]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Cyflwyniad*

**1 Trosolwg**

Mae prif ddarpariaeth y Ddeddf hon yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 fel bod y ddyletswydd bresennol ar bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i sicrhau nad yw ei wariant yn uwch na'i gyllid mewn blwyddyn ariannol yn dod, yn lle hynny, yn ddyletswydd i sicrhau nad yw ei wariant yn uwch na'i gyllid dros gyfnod o dair blynedd ariannol; a chaiff Gweinidogion Cymru ei wneud yn ddarostyngedig i orswm y caniateir ei oddef.

*Diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*

**2 Dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol**

(1) Mae Pennod 6 o Ran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adran (1) o adran 175 (dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol) rhodder—

"(1) Each Local Health Board must, in respect of each three-year accounting period, perform its functions so as to secure that its expenditure which is attributable to the performance by it of its functions in that period (not